CFAT5W
Gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a/neu gydgyfieithwyr. Mae hyn yn golygu eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau cyfieithu a'u sgiliau gwaith eraill. Rydych chi'n annog unigolion i werthuso eu sgiliau a'u perfformiad. Rydych chi'n gwneud defnydd o adborth a dderbyniwyd gan gleientiaid a chydgyfieithwyr. Rydych chi'n rhoi adborth adeiladol i'r mentai ac yn cytuno ar gamau y dylid eu cymryd i ddatblygu ei sgiliau ef neu hi ymhellach.

Cymeradwyir yr uned ar gyfer pobl sy'n gweithio fel cyfieithwyr ar y lefel broffesiynol uwch y mae eu swydd yn gofyn eu bod yn gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr.

CFAT5W
Gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 rydych chi'n cynllunio sut y byddwch chi'n casglu tystiolaeth o berfformiad y cyfieithydd

P2 rydych chi'n arolygu gwaith y cyfieithydd yn nhermau ei ansawdd a'i addasrwydd i'r pwrpas

P3 rydych chi'n defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn sgìl dulliau sicrwydd ansawdd ac adborth gan gleientiaid a chyfieithwyr eraill

P4 os ydych chi'n gwneud defnydd o destunau gwreiddiol a rhai a gyfieithwyd, rydych chi'n parchu gofynion cyfrinachedd, gan ofyn i'r awdur a/neu'r cleient am ganiatâd i'w defnyddio os oes angen

P5 rydych chi'n gwneud asesiad cychwynnol o sut y medrwch chi gefnogi'r cyfieithydd orau

P6 rydych chi'n ffurfio barn ynghylch pa adborth i'w roi a beth yw'r camau pwysicaf i'w cymryd cyn eich cyfarfod â'r cyfieithydd

P7 rydych chi'n dewis man ac amser priodol i roi adborth

P8 rydych chi'n annog y cyfieithydd i gymryd rhan weithredol yn y gwerthusiad o'i sgiliau a'i berfformiad

P9 rydych chi'n rhoi adborth sy'n adeiladol ac sy'n seiliedig ar ddata dibynadwy am berfformiad a llwyddiannau'r unigolyn

P10 rydych chi'n sensitif i anghenion a sgiliau'r unigolyn tra'n rhoi adborth a chyngor

P11 rydych chi'n cytuno ar y camau i'w cymryd gyda'r cyfieithydd a'r amserlen er mwyn cyflawni hyn

P12 rydych chi'n llunio crynodeb ysgrifenedig o gasgliadau a chynllun gweithredu, os yw hyn yn briodol

P13 rydych chi'n mynd ar drywydd unrhyw gamau a gymerir

CFAT5W
Gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1	mesurau perfformiad a meini prawf llwyddiant
K2	sut i gynllunio ar gyfer casglu tystiolaeth er mwyn medru ffurfio barn wrthrychol
K3	sut i gasglu tystiolaeth ynghylch perfformiad mewn modd sy'n sensitif i anghenion cyfieithwyr a chleientiaid
K4	dulliau i sicrhau y cwrddir â gofynion cyfrinachedd
K5	technegau i werthuso tystiolaeth a ffurfio barn wrthrychol
K6	sut i annog cyfieithwyr i asesu eu perfformiad eu hunain
K7	sut i roi adborth adeiladol
K8	camau priodol i'w cymryd er mwyn datblygu sgiliau'r cyfieithydd a sut i ddewis y rhain a chytuno arnynt
K9	y lefel a'r math o gyfarwyddyd a goruchwyliaeth sydd eu hangen o bosib ar unigolion

CFAT5W
Gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr

Gwybodaeth ychwanegol

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r uned hon yn ategu pob uned arall ar y lefel broffesiynol uwch o fewn cyfres y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cyfieithu.

Cysylltiadau Allanol

Er mwyn gweld trosolwg o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cyfieithu, egwyddorion parthed arfer proffesiynol a rhestr o dermau arbenigol, ewch at **www.cilt.org.uk/home/standards_and_qualifications/uk_occupational_standards/translation.aspx**.

CFAT5W
Gweithredu fel mentor i gyfieithwyr dan hyfforddiant a chydgyfieithwyr

Datblygwyd gan	CFA Business Skills @ Work
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Tachwedd 2009
Dyddiad adolygu a awgrymir	Tachwedd 2011
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CILT
RCU gwreiddiol	CFAT5W
Galwedigaethau perthnasol	Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliannau Gwledydd Prydain; Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliannau eraill; Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol; Cyffredinol
Cyfres/Set	Cyfieithu
Geiriau Allweddol	Cyfieithu